

**CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
RHONDDA CYNON TAF
COUNTY BOROUGH COUNCIL**

**Bydd cyfarfod o'r CABINET yn cael ei gynnal ym Mhencadlys y Cyngor,
Y Pafiliynau, Cwm Clydach (Siambwr y Cyngor)**

fore Iau 11 Chwefror, 2016 am 10.30

Dolen gyswllt: Mrs Emma Wilkins (Rhif ffôn 01443 424062)

Os bydd cynghorwyr neu aelodau o'r cyhoedd yn dymuno cael cyfle i annerch y Cabinet am unrhyw fater ar yr agenda isod, rhaid iddyn nhw ofyn am gael gwneud hynny erbyn 5pm ar 9 Chwefror 2016. Nodwch mai'r Cadeirydd biau'r penderfyniad i ganiatáu'r cais. Bydd pob cais yn cael ei ystyried ar sail y materion sy'n cael eu trafod ar yr agenda, buddiant y cyhoedd/y cynghorydd ynghlŷn â phob mater, a'r gofynion o ran y materion sydd i'w trafod ar y diwrnod hwnnw. I wneud cais, ffoniwch Swyddfa'r Cabinet ar 01443-424062 neu anfonwch e-bost i Cabinet@rctcbc.gov.uk

MATERION I'W TRAFOD

1 DATGAN BUDDIANT:

Derbyn datganiadau o fuddiannau personol gan Gynghorwyr, yn unol â gofynion Côt Ymddygiad y Cyngor.

Noder:

1. Mae gofyn i Aelodau ddatgan rhif a phwnc yr agendwm mae eu buddiant yn ymwneud ag ef a mynegi natur y buddiant personol hwnnw; a
2. Lle bo Aelodau'n ymneilltuo o'r cyfarfod o ganlyniad i ddatgelu buddiant sy'n rhagfarnu, mae **rhaid** iddyn nhw roi gwybod i'r Cadeirydd pan fyddan nhw'n gadael.

2 CYLLIDEB REFENIW Y CYNGOR AR GYFER 2016/2017

Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Corfforaethol a Rheng Flaen sy'n rhoi gwybod i Aelodau am Setliad Llywodraeth Leol, canlyniad y broses ymgynghori ar y gyllideb gyffredinol a'r gweithgarwch cyn y cam craffu, yn gymorth i drafodaethau'r Cabinet cyn paratoi'r strategaeth ar gyfer y gyllideb refeniw ar gyfer y flwyddyn ariannol hyd at 31 Mawrth, 2017, a gaiff ei chyflwyno i'r Cyngor ar gyfer ei chymeradwyo.

3 Y FFORDD YMLAEN – CYNLLUN CORFFORAETHOL 2016-2020 Y CYNGOR (DRAFFT) AR GYFER YMGYNGHORI

Derbyn adroddiad y Prif Weithredwr sy'n amlinellu Cynllun Corfforaethol drafft 2016/17 – 2019/20 y Cyngor, sy'n darparu gweledigaeth glir ar gyfer y Fwrdeistref Sirol ar ôl ymgynghori.

Tudalennau 107 - 164

4 CARTREF GOFAL PRESWYL MAES-Y-FFYNNON

Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant sy'n nodi'r dewisiadau posibl ar gyfer darparu gwasanaethau yn y dyfodol yng Nghartref Gofal Preswyl Maes-y-ffynnon, yn dilyn penderfyniad y Cabinet ar 6 Hydref, 2015 i gau'r cartref.

Tudalennau 165 - 174

5 MATERION BRYD

Ystyried unrhyw faterion bryd y mae'r Cadeirydd yn eu gweld yn briodol.



Cyfarwyddwr Gwasanaeth ac Ysgrifennydd i'r Cabinet